# Y PROTOCOL AR GYFER CAU CARTREF GOFAL YNG NGHWM TAF MORGANNWG

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Diogelu Cwm Taf | Dyddiad: Tachwedd 2022 | Statws: Wedi'i gymeradwyo yn PPG Tachwedd 2022 - fersiwn 2 |
| Awdur: J.Neale | Fersiwn blaenorol: Mawrth 2018 | Dyddiad adolygu: Tachwedd 2025 |

## 1. CYFLWYNIAD

**i).** Cafodd y protocol yma ei lunio ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a thrwy ymgynghoriad ag Arolygiaeth Gofal Cymru, yn rhan o weithdrefnau lleol a gafodd eu creu er mwyn rheoli pryderon cynyddol mewn cartrefi gofal ym Mhen-y-bont, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

**ii).** Dylech chi felly gyfeirio at y dogfennau canlynol sy'n sail i'r trefniadau lleol yma:

- **Pryderon Cynyddol ynghylch Cartrefi Gofal sy'n Darparu Gwasanaethau ar gyfer Oedolion, a Chau'r Cartrefi Hynny.** *Llywodraeth Cymru, Mai 2009.*
- **Y Protocol ar gyfer Rheoli Pryderon Cynyddol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf neu Ddarpariaeth Gwasanaeth wedi'i Gomisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.** *Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf 2017*
- **Y Protocol ar gyfer Rheoli Cyflawniad Darparwr a Phryderon Cynyddol ym maes Gofal Cymdeithasol sy'n cael ei reoleiddio ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Gwasanaethau Oedolion ac i Blant) 2022.** *Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2022*

**(iii)** Caiff achosion o gau cartrefi eu dwyn i sylw Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf drwy'r Pwyllgor Gweithredol i Oedolion a'r is-grŵp Sicrhau Ansawdd i Oedolion.

## 2. Y PROTOCOL PAN FYDD CARTREFI'N CAU

**i)** Mae'r protocol yma'n cymryd yn ganiataol bod **un** o'r sefyllfaoedd canlynol wedi codi:

- mae'r camau gweithredu a gafodd eu harygmell gan y Grŵp Gweithrediadau Amlasiantaeth (MAOG) neu mewn cyfarfodydd cyn i'r Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau gwrdd (JIMP) ac a gafodd eu cytuno gan y Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau (JIMP), wedi methu â mynd i'r afael â phryderon cynyddol yn y cartref gofal, ac
- mae'r sefyllfa wedi gwaethygu i'r pwynt lle does dim modd cynllunio i adfer y cartref. Dydy'r cartref ddim yn hyfyw a/neu does dim modd rheoli'r risgiau ar lefel dderbyniol mwyach. Fodd bynnag, mae modd **cynllunio** i gau'r cartref.

**neu:**

- mae amgylchiadau annisgwyl wedi arwain at gau'r cartref ar unwaith. Doedd **dim cynllun** i gau'r cartref.

## 3. GRŴP CYMORTH GWEITHREDIADAU'R CARTREF (HOSG)

**i).** Pan ddaw hi'n amlwg bod angen i gartref gau, boed hynny wedi'i gynllunio ai peidio, bydd y Grŵp Gweithrediadau Amlasiantaeth/y cyfarfod cyn i'r Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau gwrdd yn argymell i'r Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau y dylai Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref gael ei sefydlu er mwyn cydlynu'r broses o ran cau a chefnogi'r cartref, yn ogystal â chefnogi'r cartref a bod yn gefn i'w breswylwyr a'u teuluoedd yn ystod y broses.

**ii.** Bydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn gyfrifol am gydlynu a rheoli'r broses o ran trosglwyddo preswylwyr o'r cartref gofal sy'n cau, a blaenoriaethu'r gwaith o lenwi'r lleoedd gwag addas sydd wedi'u nodi mewn cartrefi gofal eraill.

**iii).** Caiff Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref ei gadeirio gan Gadeirydd y Grŵp Gweithrediadau Amlasiantaeth neu Gadeirydd y Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau ar gyfer yr Awdurdod Lleol perthnasol, neu bwy bynnag mae Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, neu Gyfarwyddwr Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn ei absenoldeb, yn ei ddewis.

**iv).** Bydd aelodau Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn aelodau o'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Bydd aelodau Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn meddu ar y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol o ran rheoli'r broses drosglwyddo gan beri cyn lleied o anghyfleustra a thrawma ag sy'n bosibl i breswylwyr. Yn ardal Cwm Taf Morgannwg bydd cyfansoddiad Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn dibynnu ar y categorïau y mae'r cartref wedi'i gofrestru ar eu cyfer a'r Awdurdod Lleol lle mae'r cartref gofal wedi'i leoli. Serch hynny, yn gyffredinol, bydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn cynnwys yr holl aelodau canlynol, neu rai ohonyn nhw, yn ogystal â'r Cadeirydd:

- Rheolwyr sy'n gyfrifol am Asesu a Rheoli Gofal ym maes Gwasanaethau i Oedolion ar gyfer pob awdurdod lleol.
- Swyddog Contractau (sy'n gyfrifol am y contract Gofal Preswyl a Gofal Nyrsio)
- Swyddog Monitro Contract Penodedig ar gyfer y cartref gofal sy'n cau
- Uwch Nyrs ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio a Ariennir
- Aseswr Nyrsio ar gyfer y cartref sy'n cau
- Rheolwr Diogelu
- Arolygwr Dynodedig Arolygiaeth Gofal Cymru (i'w wahodd pan fo hynny'n briodol)
- Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr Cofrestredig y cartref sy'n cau (i'w wahodd pan fo hynny'n briodol).
- Rheolwr Cwynion: Caiff yr unigolyn yma wybod bod y cartref ar fin cau er mwyn paratoi am sylwadau gan breswylwyr, neu ar eu rhan, mewn perthynas â chau'r cartref a symud i lety newydd.
- Cynrychiolwr Cynllunio mewn Argyfwng: os caiff y cartref ei gau'n ddirybudd yn dilyn argyfwng naturiol neu ddigwyddiad/argyfwng sifil.
- Adrannau Cysylltiadau Cyhoeddus y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd: er mwyn rheoli unrhyw sylw gan y cyfryngau a/neu'r cyhoedd.

## 4. STRATEGAETH GYFATHREBU GRŴP CYMORTH GWEITHREDIADAU'R CARTREF

**i).** Pan fydd hi'n amlwg bod cartref yn cau, bydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn llunio strategaeth gyfathrebu â rhanddeiliaid eraill yn syth, a hynny er mwyn:

- rhoi crynodeb gychwynnol o'r sefyllfa a diweddariadau rheolaidd i'r Cyfarwyddwr, y Cabinet a'r cynghorwyr perthnasol.
- cynnal sgwrs ag Arolygiaeth Gofal Cymru a rhannu gwybodaeth yn unol â'r protocol rhannu gwybodaeth sydd wedi'i sefydlu.
- ymgysylltu â phreswylwyr, eu teuluoedd a'u heiriolwyr, gan roi cyngor ar y broses a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw. Lle bo hynny'n angenrheidiol, dylai gynnwys preswylwyr sy'n talu drostyn nhw eu hunain.
- cynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr allweddol y darparwr gwasanaeth, a ddylai helpu i sicrhau diogelwch a lles y preswylwyr.
- rhoi cyngor cychwynnol i awdurdodau/asiantaethau sydd wedi rhoi lle i breswylwyr o'r tu hwnt i'r sir yn y cartref gofal sy'n cau, a chynnal trafodaeth â nhw.
- rhoi crynodeb i Swyddog Cyswllt â'r Cyfryngau yr Awdurdod Lleol perthnasol a mynd i'r afael ag unrhyw sylw gan y wasg yn unol â pholisi corfforaethol.

## 5. CYNLLUN CAU'R CARTREF A CHYNLLUNIAU TROSGLWYDDO UNIGOL Y PRESWYLYDD

**i).** Bydd gan yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol drefniadau er mwyn llunio cynllun cynhwysfawr ar gyfer cau'r cartref, yn ogystal â chynlluniau trosglwyddo unigol ar gyfer y preswylwyr sy’n cael eu heffeithio.

**ii).** Caiff cynllun cau'r cartref a throsglwyddo preswylwyr ei roi ar waith a'i gydlynu gan Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref. Bydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn dynodi tasgau allweddol i'w haelodau eu cwblhau o fewn amser penodol. Bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau o ran cau'r cartref a faint o amser sy'n weddill nes i'r cartref gau. Bydd y ffactorau yma hefyd yn penderfynu pa mor rheolaidd fydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn cyfarfod.

### iii). Cynllun Cau'r Cartref

Bydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn cytuno ar strategaeth i gefnogi'r trefniadau dros dro cyn i'r cartref gau. Bydd angen casglu gwybodaeth yn y meysydd canlynol i'w hystyried ***yn syth***. Dydy’r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr:

***Llinell amser y broses o ran cau'r cartref:***

- A oes modd trefnu'r broses o gau'r cartref ac, os felly, beth yw'r amserlen?
- A yw hi'n debyg y bydd y cartref yn cau'n syth neu heb fawr o rybudd?
- A oes modd gweithio gyda pherchennog y cartref a/neu'r rheolwr er mwyn cynllunio a/neu reoli'r gwaith o drosglwyddo preswylwyr?

***Materion yn ymwneud â phreswylwyr:***

- Pa risgiau tymor byr a hirdymor uniongyrchol sy'n bodoli o ran iechyd, diogelwch a lles preswylwyr?

- Pa gamau sydd wedi'u cymryd/angen eu cymryd er mwyn atal rhagor o bobl rhag cael eu derbyn i'r cartref?

- Nodi lleoedd gwag a sut y mae'r rhain yn cael eu blaenoriaethu mewn cartrefi/lleoliadau eraill, gan gynnwys cartrefi preswyl yn yr Awdurdod Lleol ac mewn wardiau lleol.

- Pa gamau sydd angen eu cymryd mewn perthynas â phreswylwyr a gafodd eu rhoi yn y cartref sy'n cau gan awdurdodau/asiantaethau y tu hwnt i'r sir? Sut bydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn rheoli'r materion yma?

***Materion staffio:***

- Beth mae'r staff yn ei wybod am y sefyllfa a sut mae hyn yn amharu ar eu hysbryd?

- A yw nifer y staff gofal/nyrsio wedi gostwng cymaint fel nad oes modd ateb y galw o ran dibyniaeth?

- Yng nghyd-destun cau'r cartref, a yw gweithredoedd (neu ddiffyg gweithredu posibl) y grŵp presennol o staff yn debygol o wneud preswylwyr yn fwy agored i risg o ran gofal amhriodol, cael eu cam-drin neu'u niweidio?

- A oes modd i ffynhonell allanol ddarparu cymorth rheoli neu staffio dros dro, ac a fyddai'r unigolyn cofrestredig/y derbynydd ac Arolygiaeth Gofal Cymru o'r farn fod hyn yn dderbyniol?

***Problemau o ran yr adeilad a chyfarpar:***

- A oes problemau gyda strwythur, y deunyddiau neu'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r adeilad sy'n golygu bod parhau i aros ynddo yn beryglus? A yw gwaith adfer yn bosibl/werth chweil o ystyried yr adnoddau a'r amser sydd ar gael?

- A oes modd cynnal gwasanaethau hanfodol megis gwres, dŵr, trydan a nwy?

- A oes unrhyw gyfarpar allweddol wedi'i symud neu'i werthu sy'n tanseilio'r posibilrwydd o gadw'r cartref ar agor yn y tymor byr? A oes modd dod o hyd i gyfarpar amgen a'i ddarparu?

***Sesiwn wybodaeth i breswylwyr, teuluoedd/eiriolwyr, staff, cynghorwyr a'r cyfryngau:***

- Pa mor effro i'r sefyllfa yw'r staff, y preswylwyr a'u teuluoedd/eiriolwyr?

- Ydy'r cynghorwyr a'r aelodau cabinet lleol perthnasol wedi cael sesiwn wybodaeth?

- Rheoli'r sylw gan y wasg.

***Dylanwadau sydd y tu hwnt i reolaeth Grwp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref:***

- A oes angen ystyried unrhyw benderfyniadau gan y llys?

## iv). <u>Cynlluniau Trosglwyddo Unigol</u>

Bydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn sicrhau bod preswylwyr, eu teuluoedd a'u heiriolwyr yn cael cymorth drwy gydol y broses drosglwyddo. Bydd y cynrychiolwyr Rheoli Gofal ar Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn sicrhau bod eu carfannau yn cydlynu'r camau canlynol, a hynny wrth ystyried yr agweddau ymarferol ar gau'r cartref a'r broses drosglwyddo:

- Penodi Rheolwr Gofal: (Nodwch, yn yr adran yma, caiff "Rheolwr Gofal" ei ystyried yn derm cyffredinol i olygu Aseswr Nyrsio, Gweithiwr Cymdeithasol neu Aseswr/Rheolwr Gofal ac ati. Mae hyn yn dibynnu ar y math o leoliad sydd dan sylw - e.e. cartref preswyl neu gartref gofal nyrsio, a'r corff sy'n ei ariannu).

- Rhaid penodi rheolwr gofal sydd â'r wybodaeth lawn ar gyfer pob preswylydd. Yn ogystal â hynny, dylai Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol gael ei benodi yn unol â dymuniad y preswylydd. Lle nad oes modd penodi Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol oherwydd dydy'r meini prawf cymhwysedd ddim yn cael eu bodloni, dylid dod o hyd i ffynonellau cymorth eiriolaeth eraill a'u cynnig i breswylwyr. Rhaid cynnig cymorth gan reolwr gofal i breswylwyr sy'n talu drostyn nhw eu hunain hefyd, hyd yn oed os ydyn nhw'n gwrthod y cynnig yma. Mae hyn yn arbennig o bwysig os nad oes gan breswylwyr sy'n talu drostyn nhw eu hunain reolwr gofal o fewn yr awdurdod a wnaeth eu hatgyfeirio, neu os does ganddyn nhw ddim teulu/eiriolwyr i'w cynrychioli. Pan fo angen, dylai'r cymorth a gaiff ei gynnig gan y rheolwr gofal gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- rhoi gwybodaeth am y broses o gau'r cartref
- rhoi manylion am leoedd gwag yn yr ardal, gan gynnwys y lleoedd hynny sydd yng nghartrefi preswyl yr Awdurdod Lleol
- rhoi cymorth wrth ddod o hyd i ddarparwr arall (ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n talu drostyn nhw eu hunain)
- rhoi'r cymorth perthnasol i deuluoedd/cynhalwyr
- trefnu cludiant i gartref newydd y preswylydd
- helpu'r preswylydd i symud ei eiddo personol i'w gartref newydd
- rhoi manylion am wasanaethau eirioli lleol
- diweddaru asesiad anghenion gofal a chymorth y preswylydd

## <u>Yr Asesiad Anghenion Gofal a Chymorth a Chynllunio Gofal</u>

Rhaid diweddaru'r asesiad o anghenion ar gyfer yr holl breswylwyr gan gynnwys y rheiny sy'n talu drostyn nhw eu hunain, os ydyn nhw'n cytuno â hynny. Dylai'r asesiad ystyried y ffactorau risg corfforol, emosiynol a meddyliol sy'n gysylltiedig â symud y preswylydd o'i gartref. Yn ogystal â hynny, dylai'r wybodaeth ganlynol gael ei chasglu a'i hystyried yn rhan hanfodol o'r asesiad newydd:

- manylion am yr holl gyfarpar neu gymorthyddion amgylcheddol y mae'r preswylydd yn eu defnyddio
- manylion am unrhyw feddyginiaeth a thriniaeth neu apwyntiadau ysbyty sydd ar y gweill
- manylion am unrhyw eiddo personol sydd gan y preswylydd yn y cartref sy'n cau
- manylion am unrhyw gyllid/cynilion personol y mae'r cartref sy'n cau yn gyfrifol amdanyn nhw
- manylion am drefn ofal ddewisol y preswylydd
- manylion am unrhyw berthynas arwyddocaol â phreswylydd arall/aelod o staff yn y cartref gofal sy'n cau

Os cafodd y preswylydd ei roi yn y cartref gan awdurdod/asiantaeth y tu hwnt i'r sir, yr awdurdod/asiantaeth hwnnw sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad, yn hytrach na'r awdurdod lleol lle mae'r cartref wedi'i leoli.

Dylai rheolwyr gofal lunio cynllun darparu gofal/gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion y preswylydd. Dylai hyn gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen er mwyn trosglwyddo'r preswylydd o'r naill gartref i'r llall. Dylai'r trefniadau monitro ac adolygu ar gyfer y cynllun darparu gofal/gwasanaeth gael eu cytuno ar yr adeg yma hefyd.

**Cynnwys a mewnbwn teulu/ffrindiau/cynhalwyr/eiriolwyr**

Rhaid deall i ba raddau y caiff teulu/ffrindiau/cynhalwyr/eiriolwyr eu cynnwys yn nhrefniadau gofal y preswylydd. Gyda chaniatâd y preswylydd, dylai teulu/ffrindiau/cynhalwyr/eiriolwyr gael eu cynnwys hyd at lefel briodol yn y gwaith o ganfod cartref newydd neu helpu'r preswylydd i symud i'w gartref newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod modd i deulu/ffrindiau/cynhalwyr/eiriolwyr barhau i weld y preswylydd unwaith iddo symud i'w gartref newydd. Os nad oes gan y preswylydd y gallu meddyliol i gydsynio i'w deulu a'i ffrindiau fod yn rhan o'r trefniadau yma, bydd angen gwneud penderfyniad ar sail budd gorau.

## 6. EIRIOLAETH

**i).** Bydd y rheolwr gofal penodedig yn gyfrifol am benderfynu a oes gan y preswylydd unigolyn priodol neu a oes angen cymorth gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol arno. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol neu eiriolwr proffesiynol arall yn ôl yr angen, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Yn ogystal â hynny, mae'r rheolwr gofal yn gyfrifol am atgyfeirio i'r gwasanaethau yma.

**ii)** Mae disgwyl i ddarparwyr cofrestredig alluogi eiriolwyr proffesiynol i gwrdd â phreswylwyr a'u teuluoedd yn y cartref sy'n cau ac eto yn eu cartrefi newydd er mwyn nodi meysydd sydd angen cymorth a darparu'r cymorth priodol.

## 7. PROBLEMAU O RAN CONTRACTIO A CHOMISIYNU

**i).** ***Cyfathrebu â chomisiynwyr allanol:***

Bydd cynrychiolwyr y Garfan Comisiynu a Rheoli Contractau ar y Grŵp Gweithrediadau Amlasiantaeth/Grŵp cyfarfod cyn i'r Panel Cydfonitro Rhwng Asisantaethau gwrdd a Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn gyfrifol am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Rwydwaith Comisiynu Cymru Gyfan ynglŷn â phryderon cynyddol yn y cartref.

Fel arfer, rydyn ni'n rhagweld y bydd y cartref yn atal asiantaethau/awdurdodau rhag atgyfeirio pobl i'r cartref yn ystod y camau cyntaf o'r broses gau, yn unol â'r polisi sydd wedi'i gytuno, ac yn rhoi gwybod i garfannau mewnol yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal â rhwydwaith comisiynwyr y tu hwnt i'r sir Cymru Gyfan, am hyn.

Pan ddaw hi'n amlwg bod y cartref yn mynd i gau, bydd y Garfan Comisiynu a Rheoli Contractau'n rhoi gwybod i'r Rhwydwaith Cymru Gyfan am y datblygiad yma, yn ogystal â'r camau y mae Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn eu cymryd i helpu i gau'r cartref a throsglwyddo preswylwyr i lety newydd. Os dydy'r cartref ddim wedi rhoi'r gorau i dderbyn preswylwyr yn gynharach, er enghraifft am fod angen cau'r cartref am reswm annisgwyl, bydd bellach angen gwneud hynny'n syth er mwyn atal rhagor o bobl rhag symud i mewn i'r cartref.

Bydd y Garfan Comisiynu a Rheoli Contractau yn casglu manylion preswylwyr presennol y cartref sy'n cau, yn ogystal â gwybodaeth ynglŷn â phwy a'u hatgyfeiriodd nhw. Ar gyfer preswylwyr sydd yn y cartref o ganlyniad i atgyfeiriad gan awdurdodau/asiantaethau y tu hwnt i'r sir, bydd y Garfan Comisiynu a Rheoli Contractau'n cysylltu â'r awdurdodau/asiantaethau hynny er mwyn rhoi gwybod iddyn nhw am y sefyllfa a'u gwahodd i gyflawni eu dyletswyddau o ran asesu preswylwyr a darparu cymorth. Os dydy'r awdurdodau/asiantaethau o'r tu hwnt i'r sir ddim yn gyfrifol am reoli gofal y preswylydd mwyach, rhaid penodi rheolwr gofal lleol.

**ii).** ***Prif Gontract:***

Bydd yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn rhoi'r cymal terfyn addas, sydd wedi'i gynnwys yn y prif gontract, ar waith gyda'r darparwr os mai'r cartref sy'n cau yw unig uned weithredol y darparwr hwnnw.

Os yw'r darparwr yn gyfrifol am fwy nag un cartref, caiff y gydberthynas gontract gyffredinol ei hystyried mewn perthynas â methiant y cartref sy'n cau. Bydd ystyriaethau o'r fath yn cynnwys p'un a yw hi'n briodol cynnig cartrefi eraill y darparwr yn llety i'r rheiny sy'n symud o'r cartref sy'n cau.

Bydd y Garfan Comisiynu a Rheoli Contractau yn rhoi gwybod i garfannau mewnol yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal â'r Rhwydwaith Cymru Gyfan, pan fydd y cartref wedi'i gau a'i ddileu o'r rhestr ddewisiadau lleol.

**iii).** ***Taliadau sy'n weddill/Gor-dalu/Tan-dalu:***

Bydd angen nodi unrhyw anghysondebau o ran taliadau, ac ymdrin â nhw drwy'r prosesau contract sy'n bodoli eisoes, yn unol â'r trefniadau gweinyddol ar gyfer cau'r cartref.

**iv).** ***Ailfeddiannu cyfarpar sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol/Bwrdd Iechyd:***

Yn unol â thelerau ac amodau'r Prif Gontract, mae hawl gan yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i ailfeddiannu unrhyw gyfarpar sy'n eiddo iddyn nhw.

Rhaid gwneud trefniadau addas mewn perthynas â chasglu'r cyfarpar, ond, cyn hynny, rhaid canfod cyfarpar arall a'i roi ar waith ar gyfer y preswylwyr sydd angen y cyfarpar yma yn rhan o'u cynllun gofal.

Fel arall, mae modd ystyried trosglwyddo'r cyfarpar yr un pryd â'r preswylwyr sydd ei angen os bydd pawb yn caniatáu hynny ymlaen llaw, os oes angen gwneud hynny ac os yw’n ymarferol bosibl ei wneud.

**v).** ***Contractau gofal unigol:***

Bydd angen i'r rheolwr gofal roi terfyn ar y contractau yma gyda'r cartref sy'n cau. Bydd angen i'r rheolwr gofal priodol lunio contractau gofal unigol newydd, yn sail i'r cynllun darparu gwasanaeth newydd, a gaiff ei roi ar waith gan y cartref newydd. Caiff y contractau eu prosesu yn y modd arferol.

## 8. GWAITH AR ÔL CAU'R CARTREF A MONITRO PARHAUS

**i).** Cyn pen mis ar ôl cau'r cartref bydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn paratoi adroddiad yn gwerthuso pa mor effeithiol y cafodd y gwaith o gau'r cartref a throsglwyddo'r preswylydd ei reoli, er mwyn rhoi adborth i'r Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau.

**ii).** Gan ddefnyddio'r gweithdrefnau monitro sydd wedi'u sefydlu, bydd y Swyddogion Monitro Contractau penodedig ar gyfer y cartref sydd wedi cau a chartref(i) newydd y preswylwyr yn arwain y gwaith o baratoi'r adroddiad ar ran Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartrefi. Bydd y swyddogion yn gofyn am fewnbwn gan eraill, gan gynnwys Aseswyr Nyrsio a’r Rheolwyr Gofal yn rhan o’r gwaith hwnnw.

**iii).** Bydd Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref yn cyflwyno'r adroddiad i'r Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella'r broses o gau cartrefi lle y bo hynny'n briodol. Bydd modd i Arolygiaeth Gofal Cymru weld copi o'r adroddiad yma hefyd.

## GEIRFA

### Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau (JIMP - Joint Interagency Monitoring Panel)

Mae'r panel yma'n cynnwys uwch swyddogion o Gyrff Comisiynu (Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol), sy'n gwneud penderfyniadau am y camau y mae angen eu cymryd er mwyn diogelu defnyddwyr gwasanaethau mewn mannau lle mae safonau'r gwasanaeth yn is na'r safonau disgwyliedig. Mae modd i'r Panel benderfynu atal y gwasanaeth a cheisio cyngor cyfreithiol er mwyn rhoi terfyn ar gontractau.

### Grŵp Gweithrediadau Amlasiantaeth (MAOG - Multi-Agency Operations Group)

Mae'r Grŵp yma'n cynnwys ymarferwyr a rhanddeiliaid o sefydliadau perthnasol sy'n cwrdd bob mis i rannu gwybodaeth a gwneud argymhellion i'r Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau ynglŷn â'r camau gweithredu angenrheidiol.

### Cyfarfod cyn i'r Panel Cydfonitro Asiantaethau gwrdd

Mae panel y cyfarfod yma'n cynnwys ymarferwyr a rhanddeiliaid o sefydliadau perthnasol sy'n cwrdd pan fo anen i rannu gwybodaeth a gwneud argymhellion i'r Panel Cydfonitro Rhwng Asiantaethau ynglŷn â'r camau gweithredu angenrheidiol.

### Grŵp Cymorth Gweithrediadau'r Cartref (HOSG - Home Operations Support Group)

Mae hwn yn grŵp sy'n cynnwys yr holl reolwyr perthnasol o asiantaethau comisiynu ac asiantaethau perthnasol eraill, sydd eu hangen er mwyn cydlynu a rheoli'r broses o ran cau cartref.